

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Awst 2018

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: Brechu staff gofal preswyl a chartrefi nyrsio rhag y ffliw yn 2018-19

Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Fferyllwyr Cymunedol
Arweinwyr ym maes lmiwneiddio,
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau
lechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol,
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio,
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Prif Fferyllwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd, Byrddau lechyd
Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol,
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd
Cyfarwyddwyr lechyd Sylfaenol, lechyd
Cymunedol ac lechyd Meddwl, Byrddau lechyd
Prif Weithredwr, lechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau lechyd
Cyhoeddus, lechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Nyrsio, lechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau
Ataliadwy, lechyd Cyhoeddus Cymru
Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymru

At sylw:

Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Meddygon Teulu
Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Anfonir gan:

Prif Swyddog Meddygol Cymru

Enw(au) Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:

Gwasanaethau Diogelu Iechyd, Adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd.
CF10 3NQ E-bost: HealthProtection@llyw.cymru

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

Annwyl Gyfeillion,

Darpariaeth y GIG o frechiadau rhag y fflw i staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl i oedolion a chartrefi gofal nyrsio 2018-19

Yn 2018-19, bydd staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl i oedolion a chartrefi gofal nyrsio yn cael cynnig brechiad rhag y fflw am ddim drwy'r gwasanaeth iechyd.

Mae'r llythyr hwn yn rhoi rhagor o fanylion am drefniadau'r rhaglen.

Pwrpas y rhaglen

Er bod cyfraddau uchel o breswylwyr yn cael eu brechu rhag y fflw, gall y feirws ledaenu mewn cartrefi gofal a chael ei drosglwyddo'n rhwydd o staff i'r preswylwyr pan fo gan yr aelod o'r staff symptomau ysgafn, neu ddim symptomau o gwbl. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw system imiwneidd pobl yn ymateb gystal i frechlynnau wrth iddynt fynd yn hŷn.

Profwyd bod brechu staff mewn lleoliadau gofal hirdymor yn ffordd effeithiol o gyfyngu ar ledaeniad y clefyd a lleihau nifer y marwolaethau a'r nifer sy'n mynd yn sâl ymysg y preswylwyr. Gall hefyd helpu i sicrhau parhad busnes drwy leihau salwch sy'n ymwneud â'r fflw ymysg staff a'r angen i ddarparu staff asiantaeth. Mae gan y sector gofal cymdeithasol rôl hanfodol i'w chwarae o ran osgoi derbyniadau i'r ysbyty yn ystod y gaeaf, yn arbennig ymysg pobl hŷn. Yn ystod gaeaf y llynedd, cafwyd 88 adroddiad am achosion o'r fflw yng Nghymru, ac roedd 64% o'r rheini wedi'u cofnodi mewn cartrefi gofal. Mae astudiaethau wedi dangos bod nifer y staff mewn cartrefi gofal sydd wedi'u brechu rhag y fflw hyd yma yn isel iawn, a'u bod felly yn wynebu risg uwch o ddal y feirws.

Cynnwys cartrefi gofal yn y rhaglen

Mae holl gartrefi gofal preswyl i oedolion a holl gartrefi gofal nyrsio Cymru wedi'u cynnwys yn rhaglen y gwasanaeth iechyd oherwydd y risg uwch i'r staff a'r preswylwyr oherwydd natur gaeedig y lleoliadau hyn. Bydd cartrefi gofal nyrsio yn cynnwys y nifer bach o hosbisau i blant yng Nghymru, ond ni chaiff lleoliadau gofal preswyl eraill i blant nac oedolion ifanc eu cynnwys.

Staff cymwys

Mae'r holl staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal fel y disgrifir uchod ac sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r preswylwyr yn gymwys. Bydd mwyafrif y staff hyn yn darparu gofal personol neu glinigol uniongyrchol. Mae cartrefi llai yn debygol o gyflogi staff sydd, fel rhan o'u rolau, yn dod i gysylltiad rheolaidd â'r preswylwyr ond nad ydynt yn darparu gofal uniongyrchol. Mae disgwyl i'r holl gartrefi gynllunio sut i nodi'r staff sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r preswylwyr a chadarnhau eu bod yn gymwys i fferyllfeydd cymunedol fel yr amlinellir isod.

Nid yw staff gofal cymdeithasol eraill, gan gynnwys gweithwyr gofal cartref, yn gymwys i gael eu brechu rhag y ffliw drwy'r gwasanaeth iechyd yn ystod 2018-19. Mae risg ffliw, ynghyd â gallu'r feirws i ledaenu, yn uwch ymysg pobl sy'n rhannu llety.

Darparu'r Rhaglen

Caiff y rhaglen ei darparu drwy wasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw y gwasanaeth iechyd mewn fferyllfeydd cymunedol.

Bydd angen i fyrddau iechyd gynnwys staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal ymysg y grwpiau sy'n gymwys i gael brechiad gan fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Dylid cytuno'n lleol ar y dull o ddarparu'r rhaglen. Mae'n bosibl y bydd fferyllfeydd cymunedol sy'n cyflenwi meddyginiaethau i gartrefi gofal yn dymuno gwneud trefniadau â'r cartrefi hynny i gynnig y brechiad i staff ar y safle. Opsiwn arall fyddai cyfeirio'r staff i ymweld ag unrhyw fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.

Bydd angen i fferyllfeydd cymunedol wirio a yw'r unigolyn sy'n dod i gael y brechiad yn gymwys, er enghraifft drwy ofyn i weld llythyr neu daleb gan y cartref gofal yn cadarnhau bod yr unigolyn yn cael ei gyflogi yno a'i fod yn gymwys.

Lle bo'n bosibl, dylid brechu staff cartrefi gofal drwy'r gwasanaeth mewn fferyllfeydd cymunedol i leihau'r pwysau ar feddygfeydd. Fodd bynnag, gall staff cartrefi gofal sydd mewn grŵp risg clinigol sy'n gymwys i gael y brechiad drwy'r gwasanaeth iechyd ddewis cael eu brechu yn eu meddygfa eu hunain.

Cofnodi nifer y brechlynnau sy'n cael eu rhoi

Bydd data ar staff gofal preswyl a chartrefi nyrsio cymwys yn cael eu casglu fel rhan o ofynion gwasanaeth brechu tymhorol rhag y fflw y gwasanaeth iechyd mewn fferyllfeydd cymunedol.

Bydd yn ofynnol i fferyllfeydd cymunedol ddarparu manylion y brechlynnau sy'n cael eu rhoi drwy ddefnyddio'r system Dewis Fferyllfa neu'r Ffurflen Hawlio ac Archwilio Electronig Genedlaethol i'r practis cyffredinol priodol yn brydlon.

Cyllid

Cytunwyd yn flaenorol i ad-drefnu cyllid contract fferyllfeydd cymunedol i gefnogi'r gwaith o gomisiynu'r gwasanaeth ychwanegol. Byddai'r costau a godir o'r ffioedd a delir i'r fferyllfeydd yn cael eu talu o'r cyllid a ad-drefnwyd ac felly mae'r arian hwn eisoes wedi'i gynnwys yn y dyraniad i fyrddau iechyd.

Nid yw'r gost o gaffael y brechlyn wedi'i gynnwys yn y cyllid presennol. Bydd cyfarwyddwyr cyllid y byrddau iechyd yn cael gwybod ar wahân am y cyllid sy'n cael ei ddyrannu i'r byrddau iechyd unigol.

Deunyddiau cyhoeddusrwydd a gwybodaeth

Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn anfon pecynnau gwybodaeth i gartrefi gofal ledled Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen newydd hon ac er mwyn rhoi cymorth a chanllawiau i'w helpu i sicrhau bod eu staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â phreswylwyr yn cael eu brechu.

Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar dudalen 'Curwch Fflw' ar wefan lechyd Cyhoeddus Cymru: www.curwchffliw.org neu www.beatflu.org.

Yn gywir,



Dr Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru